

PWYLLGOR DATHLU ACHUB LLANGYNDEYRN A CHWM GWENDRAETH FACH

**Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Nhafarn y Gof, Llangyndeyrn
15fed o Dachwedd 2012 am 7.30 y.h.**

Presennol	Diana Thomas-Laidlaw – Ysgrifenydd John Thomas - Cyd-Gadeirydd David Thomas- Cyd-Gadeirydd Christopher Smith - Trysorydd Robert Thomas Brendan Griffiths Tyssul Evans -	Mary Pugh Ann Richards Einir Griffiths Peter Jones Ian Jones Robert Rhys
Ymddiheuriadau am Absenoldeb	Mrs.Brodrick Arwyn Richards David Saywell Marc Jones Elin Jones Sulwyn Thomas Gwydion Wynne	

	Gweithredu
MATERION YN CODI AC AGENDA. 1. Gwnaeth John Thomas groesawu pawb i'r cyfarfod. 2. <u>Cywirdeb Cofnodion y cyfarfod blaenorol (4.10.2012)</u> Cadarnhawyd fod pawb wedi derbyn y copïau o gofnodion y cyfarfod blaenorol a ddanfonwyd trwy e.bost gan Diana. Gwnaeth Einir a Rob gynnig ac eilio eu bod yn gywir. 3. <u>Adrodd yn ôl wrth yr Is-Bwyllgor Cyhoeddusrwydd</u> Nodwyd y pwyntiau canlynol gan Tyssul : * Bod Meinir Jones wedi gwneud ail gais i S4C i greu rhaglen ar yr ymgyrch i foddï Llangyndeyrn a Chwm Gwendraeth Fach. (Cofier bod y cais cyntaf wedi cael ei wrthod gan S4C.) Nodwyd bod Diana wedi ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at Brif Weithredwr S4C i geisio darbwyllo'r cwmni i gynhyrchu rhaglen. Gwnaeth Tyssul ynghyd ag unigolion eraill ysgrifennu ato hefyd gyda'r un nod. * Nodwyd bod cwmni Tinopolis, a Martin Geraint yn dal yn dangos diddordeb mewn creu rhaglen. *Nododd Robert Rhys y gallai rhaglen "Heno" wneud sawl rhaglen, neu bytiau	

bach i'w darlledu yn ystod sawl rhaglen ar hanes dathlu'r hanner-can mlwyddiant.
*Nodwyd bod angen hysbysebu'r noson "Peint a Phennill" ym Mhapur y Cwm, ac yn y "Journal" ac ar y wefan (Llangyndeyrn.org.)
*Nododd Tyssul nad yw logo'r Cyngor Cymuned yn ymddangos ar y wefan, a bod logo's pobl/cwmniau eraill sydd wedi cyfrannu yn ymddangos yno.
*Cafwyd trafodaeth fer ar y posibilrwydd o gysylltu gyda "Thalwrn y Beirdd."

G.W.

4. Adrodd yn ôl wrth yr Is-bwyllgor Marchnata

Nodwyd y pwyntiau canlynol gan Rob :

*Bod rhaid canolbwyntio ar werthu'r calendr dros yr wythnosau nesaf. Mae 100 o galendrau maint A3, a 50 o galendrau maint A4 wedi cael eu cynhyrchu. Y bwriad yw gwerthu'r calendrau A3 am £7 yr un, a'r calendrau A4 am tua £6 yr un.
Cafwyd trafodaeth am bris y calendrau, gan bod rhai aelodau o'r Pwyllgor yn credu bod £7 yn rhy ddud. Yn y diwedd cytunwyd i godi £7 am y calendr maint A3, a £6 am y calendr A4. Nododd Robert y bydd y calendrau'n cael eu gwerthu yn y FFair Grefftau Nadolig sydd i gael ei chynnal yn Neuadd yr Eglwys ar ddydd Sadwrn 17eg o Ragfyr 2012.

*Nodwyd y gellir hysbysebu'r calendr ar y wefan er mwyn ceisio gwerthu mwy o gopiâu, ac fel ffordd o gadw'r wefan yn "fyw." Nododd Christopher bod modd trefnu y gallai pobl dalu trwy system "Paypal" ar y wefan.

5. Adrodd yn ôl wrth yr Is-bwyllgor Cyllid/Gwneud Cais am Grantiau.

Nodwyd y pwyntiau canlynol gan Christopher :

*Dywedodd bod Emyr - y swyddog grantiau yn awyddus i gael popeth yn orffenedig erbyn Mis Ebrill 2013 - sef bod popeth yn barod i'w roi ar y wefan, bod Robert Rhys yn cyflwyno ei infois i'r Pwyllgor, a bod Gwydion yn gwneud yr un fath, ac yna y gallai'r Pwyllgor dalu'r biliau ar yr un pryd. Gwnaeth Tyssul nodi y byddai'r benthyciad o £10,000 ar gael i ni ar Ebrill y cyntaf.

*Nodwyd gan Christopher ei fod wedi ymchwilio ymhellach, ac na fydd y grant "Tirwedd a Threftadaeth – Sir Gaerfyrddin" yn talu am argraffu'r "Llyfr Atgofion."
*Nodwyd taw ein bwriad ydoedd i osod y "Llyfr Atgofion" ar y wefan yn gyntaf ar ffurf "e.lyfr." Yna, cyn gynted ag y bydd y grant wedi cael ei dalu yn ôl, gellir mynd ati i argraffu'r llyfr.

6. Adrodd yn ôl wrth yr Is-Bwyllgor Gweithgareddau/Codi Arian yn Lleol

Nodwyd y pwyntiau canlynol gan Einir :

*Bod y Noswaith o Adloniant yn nhafarn y Gof wedi bod yn un lwyddiannus iawn, gan ddod fewn ag elw o £627.

*Cafwyd elw o £242 ar Noson y Cwis yn nhafarn y Ffermwyr. Nododd bod cwmni "Banc Plant" wedi cyflwyno rhodd o £50, felly, roedd cyfanswm elw noson y cwis yn £292.

*Gwnaed elw o £249 ar noson yr Helfa Drysor.

*Cafwyd trafodaeth am y Noson Peint a Phennill, sydd i'w chynnal ar Ionawr

26ain yn Nhafarn y Ffermwyr. Cytunwyd y bydd Robert Rhys yn cysylltu gydag Aled Evans, Ysgol Farddol Caerfyrddin a Tudur Hallam. Mwy na thebyg bydd Aled Evans yn barod i gysylltu gyda gwahanol bobl. Awgrymwyd y gallai Mererid Hopwood arwain y noson, gan bod Mary eisoes wedi siarad a hi. Soniwyd hefyd am y posibilrwydd o gysylltu gydag Arwel John, Geraint Roberts ac Emlyn Dole. Awgrymodd Robert Rhys y byddai'n fuddiol i gael rhyw fath o arddangosfa yn y cefndir, y gellir cael rhai agweddau ysgafn a rhai agweddau dwys i'r noson, ac nad oes angen i'r noson fod yn un hir iawn.

*Bydd y gweithgaredd nesaf yn cael ei gynnal ym Mis Ebrill, sef y Daith Gerdded Noddedig.

* Cafwyd trafodaeth am y Marquee. Nododd Einir iddi gysylltu a chwmmi Tegryn, a bod y Marquee sydd gyda nhw yr un maint a'r Neuadd – ac felly yn mynd i fod yn rhy fach. Byddai defnyddio'r Marquee hwn yn costï £1,000.

Nododd Einir iddi siarad a chwmmi arall – sef “Fedwen” – a bod y Marquee sydd gyda nhw yn dal 250 o bobl, ond y byddai'n costï £5,000.

*Nodwyd efallai y byddai angen y Marquee am rhyw ddeg diwrnod hyd at pythefnos, ac y byddai angen trefnu cyfleusterau “tŷ bach” hefyd.

*Cafwyd trafodaeth fer ynglŷn â lle y dylid gosod y Marquee, ond cytunwyd y dylid cael 3 pris gan gwmnïau gwahanol, gan yna ystyried rhain cyn dod i benderfyniad.

*Awgrymwyd gan Rob y dylid ymchwilio fewn i'r posibilrwydd o gael grant ar gyfer y Marquee.

*Nododd Tyssul iddo ofyn i Gyngor Abertawe os gallent ddarparu Marquee, ond ni allant gynnig unrhyw beth i ni. Mae gan Tyssul restr o enwau cwmnïau lleol all fod o gymorth.

*Cafwyd trafodaeth fer ar y diwedd am yr artistiaid fydd yn perfformio adeg y Cyngerdd Mawreddog, e.e. a oes angen gofyn i gôr i berfformio?

7. Robert Rhys

*Nododd y bydd angen sicrhau bod y broses o drefnu'r cyfweiliadau er mwyn casglu'r atgofion ar gyfer y “Llyfr Atgofion” yn cael ei ddechrau. Dylid cadw rhestr o enwau'r unigolion fydd yn barod i gael eu holi. Awgrymwyd y dylid cofio i holi unigolion oedd yn blant ar y pryd yn ogystal. Hefyd bydd angen dewis y lluniau ar gyfer y llyfr.

*Trefnwyd cyfarfod yn Y Berllan, pan fydd Hywel Rees yn dod i drafod y “Llyfr Atgofion” gyda Robert Rhys. Awgrymwyd y dylai'r canlynol fod yn bresennol hefyd : Gerwyn Rhys, Lynwen, Diana, Mary, a John. Cytunwyd i gynnal y cyfarfod ar Ragfyr 1af, am 10.30 y.b.

8. U.F.A.

Holwyd beth oedd sefyllfa'r Mosaic. Dywedodd John ei fod heb gysylltu gyda Brian eto, byddai'n ceisio gwneud hynny cyn y cyfarfod nesaf.

9. Dyddiad y cyfarfod nesaf

J.T.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r pwyllgor hwn ar Nos Iau 10fed o Ionawr 2013 am 7.45 y.h. yn nhafarn Y Ffermwyr, Llangydeyrn.

10. Bydd copi Saesneg o'r cofnodion hyn ar gael yn y cyfarfod nesaf i'r rhai fydd yn awyddus i'w derbyn.

Diana Thomas-Laidlaw (Ysgrifenyddes y Pwyllgor Dathlu Achub Llangydeyrn a Chwm Gwendraeth Fach.)

--	--